Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL SIR GADWEDIG GORLLEWIN MORGANNWG

# ADRODDIAD AR YMCHWILIAD LLEOL A GYNHALIWYD 23 GORFFENNAF 2004 YN SIAMBR Y CYNGOR, ABERTAWE

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
Caerdydd CF10 3BE

Comisiynwyr

1. Ar 13 Gorffennaf 2004 yn Siambr y Cyngor, Cyngor Dinas Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, cynhaliais ymchwiliad lleol o dan adran 6(2) Parliamentary Constituencies Act 1986 (Deddf 1986) mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer sir gadwedig Gorllewin Morgannwg. Rwyf bellach yn cyflwyno'r adroddiad hwn sy'n cynnwys fy argymhellion.

**Cefndir**

2. Mae Deddf 1986 fel y'i diwygiwyd yn gofyn am adolygiad cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru bob wyth i ddeuddeng mlynedd. Cwblhawyd yr adolygiad diwethaf ym 1995.

3. Cyhoeddwyd rhybudd o'r adolygiad presennol ar 16 Rhagfyr 2002. Dyna'r dyddiad cyfrifo at ddibenion rheol 8 y rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddau (y rheolau) a nodir yn atodlen 2 Deddf 1986. Mae rheol 8(a) yn nodi bod y dywediad "cwota etholiadol" yn golygu'r nifer a gafwyd trwy rannu'r etholwyr ar gyfer y rhan honno o'r Deyrnas Unedig gan nifer yr etholaethau sy'n bodoli ynddi ar y dyddiad hwnnw. Diffinnir "etholwyr" yn ei dro; yn rheol 8(b)(i) mewn perthynas ag etholaeth fel nifer y bobl y mae eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr o etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw, ac yn rheol 8(b)(ii) mewn perthynas â'r rhan o'r Deyrnas Unedig, fel nifer yr etholwyr cyfansymiol fel y diffinnir o'r holl etholaethau yn y rhan honno.

4. Gan ddefnyddio'r ymadroddion hynny, y cwota etholiadol yw 55,640. Mae nifer yr etholwyr ar gyfer pum etholaeth Gorllewin Morgannwg fel a ganlyn:

Aberafan 50,422; Gŵyr 60,524; Castell-nedd 56,993; Dwyrain Abertawe 57,226; Gorllewin Abertawe 58,336; gan wneud cyfanswm o 283,501. Felly, yr gwahaniaeth rhwng y nifer uchaf a nifer isaf yr etholwyr yw 10,102.

**Yr argymhelliad dros dro**

5. Yr argymhelliad dros dro a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2004 oedd gadael y tair etholaeth heb eu newid, ond gwneud mân addasiad i alinio'r ffin rhwng etholaethau Gŵyr a Chastell-nedd, er mwyn cynnwys adran etholiadol gyfan Clydach (4). Golyga hyn drosglwyddo 11 o etholwyr o'r ail i'r cyntaf, gan arwain at y ffigurau diwygiedig, sef: Gŵyr 60,535; Castell-nedd 56,982; a gwahaniaeth o 10,113.

6. Gwnaed 23 o gynrychiolaethau ysgrifenedig ar yr argymhellion dros dro erbyn 6 Chwefror 2004, ar ddiwedd y cyfnod cynrychiolaeth. Cefnogodd Plaid Lafur Cymru (WLP), Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Lafur Etholaeth Gŵyr, Plaid Lafur Ward Pontybrenin, Ms Edwina Hart AC, Ms Val Lloyd AC a Mr D Fox yr argymhellion dros dro. Fe'u cefnogwyd mewn perthynas â Gŵyr gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a'r Cynghorydd Gethin Evans, mewn perthynas â Chastell-nedd gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, mewn perthynas â Dwyrain a Gorllewin Abertawe gan Bleidiau Llafur yr Etholaethau perthnasol ac mewn perthynas â Dwyrain Abertawe gan Mr M J Hedges.

7. Gwrthwynebodd Plaid Geidwadol Cymru (WCP) a Mr Alun Cairns AC yr argymhellion dros dro a chynigiwyd trosglwyddo Cymuned Mayals (20) i wardiau Gŵyr, Clydach (4) a Mawr (19) i Gastell-nedd, a wardiau Blaengwrach (5), Glyn-nedd (21) Penlanna (31) a Resolfen (34) i Etholaeth Aberafan (y prif wrthgynnig). Mae Cymdeithas Geidwadol Gŵyr yn cefnogi'r cynigion hyn mewn perthynas â Gŵyr a Chastell-nedd, a chaiff trosglwyddo Mayals ei gefnogi gan Mr T Donoghue, Mr E J Furneant, Miss P F Griffiths ac M J Edwards, Mr J G Gwillam, Mr a Mrs John a Carol Powell, a Mr M N Rees.

8. Gofynnodd Mr Peter Black AC am roi ystyriaeth i ddiwygio dau anomaledd, sef bod ardal bleidleisio Llangyfelach a Glais yn cael eu rhannu rhwng etholaethau Dwyrain Abertawe a Gŵyr.

9. Nodais wrth agor yr ymchwiliad fy mod yn weddol gyfarwydd â'r cymunedau dan sylw ac y byddwn yn ystyried unrhyw gais y dylwn ymweld ag un neu fwy ohonynt. Cefais fy ngwahodd gan WCP i ymweld â Chlydach, Trebannws, Heol y Ffin a Phontrhydyfen. Cefais fy ngwahodd gan WLP i deithio i lawr Cwm Nedd. Yn syth ar ôl cau'r ymchwiliad teithiais heb gwmni yn y car ar hyd y B4603 trwy Glydach a Threbannws ac ymlaen i Ystalyfera. Yna, teithiais dros Fynydd y Drum i ymuno â'r A465 yng Nglyn-nedd a theithiais i lawr Cwm Nedd ac i mewn i Gastell-nedd. Yna, cymerais y B4287 trwy Gimla i Bontrhydyfen cyn ymuno â'r M4 trwy Bort Talbot. Stopiais mewn gwahanol leoedd ar hyd y ffordd, gan gynnwys Heol y Ffin.

**Y rheolau**

10. Y man cychwyn i mi ystyried y materion, yw'r rheolau y soniwyd amdanynt eisoes. Nid oes unrhyw faterion yn codi o ran rheolau 1 i 3. Mae rheol 4 yn nodi y dylid dilyn ffin y sir gadwedig cyhyd â bo hynny'n ymarferol. Mae rheol 5 yn nodi bod etholwyr yr etholaethau i fod mor agos i'r cwota etholiadol ag y bo hynny'n ymarferol gan ystyried rheolau 1 i 4.

11. Mae rheol 6 yn galluogi'r Comisiwn i wyro oddi wrth reolau 4 a 5 os yw ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn ymddangos eu bod yn gwneud gwyriad yn ddymunol. Mae rheol 7 yn nodi nad dyletswydd y Comisiwn fydd anelu at weithredu'n llawn y rheolau uchod ym mhob achos, ond rhoddir ystyriaeth cyn belled â bod hynny'n rhesymol (a) o'r anghyfleustodau sy'n dilyn o newid etholaethau a (b) o unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newid felly.

**Y prif wrthgynnig**

12. Mae WCP yn cyfeirio at y ffaith ers yr adolygiad diwethaf, mae'r anghyfartaledd wedi tyfu o 8,060 ac maent yn dweud bod yr amser bellach wedi cyrraedd i fynd i'r afael â nifer cynyddol yr etholwyr yng Nghŵyr a nifer isel yr etholwyr yn Aberafan. Byddai effaith y prif wrthgynnig fel a ganlyn: Aberafan 58,191; Gŵyr 55,729; Castell-nedd 56,477; Dwyrain Abertawe 57,226 a Gorllewin Abertawe 55,878. Mae hyn yn creu anghyfartaledd o 2,462. Dywed Mr Cook ar ran WLP yn yr ymchwiliad fod gwahaniaethu mwy na'r un presennol yng Ngorllewin Morgannwg wedi'u hargymell dros dro gan y Comisiwn mewn dau achos ac yn wir wedi'i wrthgynnig gan WCP mewn un achos. Ymateb WCP yw bod rhaid edrych ar bob achos yn ôl ei haeddiant, ac yn fy marn i, rhaid bod hynny'n iawn.

13. Rwy'n derbyn bod y prif wrthgynnig yn ymdrech ddifrifol i fynd i'r afael ag anghyfartaledd sy'n ehangu yng Ngorllewin Morgannwg ac mae'n haeddu cael ei ystyried o ddifrif. Roedd prif bwyslais y dadleuon yn ei erbyn a drafodwyd yn yr ymchwiliad yn ymwneud â materion fel cyfleustra a chysylltiadau cymunedol sy'n codi o dan reol 7, yn hytrach nag ymarferoldeb sy'n codi o dan reol 5. Fodd bynnag, gan fod cludiant yn fater perthnasol dan y ddwy reol, rwy'n ystyried y mater hwn gyntaf.

**Ymarferoldeb**

14. Lluniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCPT) gynllun defnyddiol iawn yn dangos yr isadeiledd cludiant yn ei ardal. Rhoddodd Mr Thorn dystiolaeth ar ran CBSCPT, sy'n derbyn yr argymhellion dros dro cyhyd â'u bod yn gysylltiedig â Chastell-nedd ac Aberafan. Dywedodd er bod wardiau Blaengwrach, Glyn-nedd a Resolfen yn agos i etholaeth Aberafan, maent wedi'u gwahanu oddi wrthi gan gadwyn o fynyddoedd a dim ond llwybrau coedwigoedd sydd ar eu traws. Mae'r pellter o Ganolfan Gymunedol Glyncorrwg yng Nghwm Afan i'r cylchdro ar gyffordd Glyn-nedd a Blaengwrach rhyw 21 milltir, ac mae tua 40 munud o daith. Nid oes llwybr bws uniongyrchol, ond ar hyn o bryd mae gwasanaeth

yn rhedeg pob awr o Gymer i ganol tref Castell-nedd trwy Bontrhydyfen sy'n cymryd rhyw 30 munud. Yna, byddai angen newid bysiau a theithio am 30 munud pellach cyn cyrraedd Glyn-nedd. Mae gwasanaeth uniongyrchol yn rhedeg o Ddyffryn Afan i Gastell-nedd. Mae gwasanaethau eraill yn golygu newid ym Mhort Talbot a Chastell-nedd. Mae hygyrchedd rhwng Pelenna a Chwm Afan yn haws.

15. Ni chafodd y dystiolaeth hon ei herio ac rwy'n ei derbyn. Fe'i cefnogwyd gan Mr Hain, a nododd petai'r prif wrthgynnig yn cael ei fabwysiadu, byddai'n rhaid i etholwyr o Gwm Nedd Uchaf fynd heibio swyddfa ei etholaeth yng Nghastell-nedd i gyrraedd yr un ym Mhort Talbot. Gwnaeth yn glir nad oedd yn meddwl am yr anghyfleustra iddo ef, gan mai ei waith ef fyddai cynrychioli ei etholwyr ble bynnag y byddent.

16. Darllenodd Mr Conde ddatganiadau gan Dr Brian Gibbons a Dr Hywel Francis, Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol yn y drefn honno ar gyfer Aberafan. Siaradon nhw am y "problemau logistaidd difrifol" y byddai'r gwrthgynigion yn eu creu. O gael ei holi, eglurodd Mr Conde fod y ddau Aelod yn hapus i fynd i'w hetholaethau i gynnal cyngorfeydd, ond y tu hwnt i hynny mae angen hefyd i etholwyr gyrraedd eu cynrychiolwyr. Derbyniodd efallai bod yr amserau teithio dan ystyriaeth yn arferol mewn etholaethau gwledig, ond pwysleisiodd y byddai'n gosod caledi ychwanegol ar etholwyr Cwm Nedd Uchaf.

17. Mewn perthynas â Mawr, rhoddodd Mr Smith, a oedd yn cynrychioli Plaid Lafur Etholaeth Gŵyr, dystiolaeth o'r daith hir o rai o'r pentrefi yn ward Mawr fel Garnswllt a Felindre i Gastell-nedd. Byddai hyn yn golygu taith trwy etholaethau Gŵyr, Dwyrain Abertawe ac Aberafan. Derbyniodd y Cynghorydd Hood-Williams, a roddodd dystiolaeth ar ran WCP, y byddai'n broblem fawr i fynd o Garnswllt i Gastell-nedd ar gludiant cyhoeddus.

18. Derbyniodd Mr Caton, sy'n teithio trwy ddwy etholaeth Abertawe er mwyn mynd o un pen etholaeth Gŵyr i'r llall, nad oedd hynny'n achosi unrhyw anhawster penodol iddo.

19. Derbyniaf y byddai'r gwrthgynnig yn achosi caledi ychwanegol o ran cludiant, yn enwedig i etholwyr Cwm Nedd Uchaf a rhan orllewinol Ward Mawr. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw'r caledi hwnnw o'r fath neu gymaint o faint bod y prif wrthgynnig yn anymarferol. Roedd y problemau logistaidd ar eu mwyaf amlwg mewn perthynas â Chwm Nedd Uchaf. Felly, mae'n dilyn bod fy nghasgliad yn berthnasol i'r holl wrthgynigion. Yn fy marn i maent yn ddichonadwy ac yn gyfiawn yn ôl rheol 5.

**Ystyriaethau arbennig**

20. Am yr un rhesymau, nid wyf yn ystyried y byddai siâp neu hygyrchedd yr etholaethau a fyddai'n cael eu ffurfio gan y gwrthgynnig yn arwain at ystyriaethau daearyddol arbennig o fewn ystyr rheol 6, a fyddai'n cyfiawnhau dros wyro o reolau 4 neu 5.

**Anghyfleustra a chysylltiadau lleol**

21. Materion anghyfleustra a chysylltiadau lleol a oedd yn rheoli'r dystiolaeth yn yr ymchwiliad, ac rwy'n troi at y materion hyn nawr. Byddaf yn delio i ddechrau â'r gwrthgynnig mewn perthynas â ffin Etholaeth Castell-nedd/Aberafan.

*Cwm Nedd Uchaf*

22. Rhoddodd y Cynghorydd Hood-Williams dystiolaeth ar ran WCP. Dywedodd y byddai'r pedair adran etholiadol y mae WCP yn cynnig eu trosglwyddo yn eistedd yn hawdd gydag adrannau tebyg yn etholaeth Aberafan. Mae gan adrannau cyfagos Bryn a Chwmafan (8), Cymer (18), Glyncorrwg (20) a Gwynfi (24) ragolygon a gofidiau tebyg, topograffi tebyg, ac maent yn cefnogi'r un diwydiannau megis twristiaeth a choedwigaeth. Cyfeiriodd at yr hyn a welai fel cynsail a osodwyd yn wardiau Coedffranc (13-15) sy'n cynnwys Sgiwen ac sy'n sefyll yn etholaeth Aberafan. Honnodd fod hon yn gynsail amlwg ar gyfer lleihau cysylltiadau lleol er mwyn lleihau anghyfartaledd. Cyfeiriodd hefyd at bentref Pontrhydyfen, sydd ar hyn o bryd wedi'i rhannu rhwng y ddwy etholaeth hon.

23. Cefnogodd Mr Cairns y dystiolaeth hon, gan ychwanegu bod chwaraeon a beicio yn ddiddordeb cyffredin mawr rhwng y cymunedau hyn, ac mae strategaethau twristiaeth y Cynulliad, Bwrdd Croeso Cymru a'r awdurdodau lleol wedi'u seilio ar gydweithredu agos rhwng y cymunedau hyn. Mae ei dystiolaeth yn nodi bod y cysylltiadau rhwng y cymunedau hyn yr un mor gryf â'r rhai rhwng pedair ward Cwm Nedd a Chastell-nedd ei hun

24. Mae nifer y bobl sy'n gweithio yng Ngweithfeydd Dur Corus ym Mhort Talbot yn byw ym mhedair ward Cwm Nedd a gyfeirir atynt yn y gwrthgynnig. Mae Tonmawr a chlybiau rygbi eraill o'r wardiau hynny'n dewis chwarae yng nghynghrair Aberafan. Roedd ei dystiolaeth yn nodi bod gan Bontrhydyfen gysylltiadau agosach â Phort Talbot na chyda Chastell-nedd, a nododd gysylltiad Richard Burton â'r hen dref fel enghraifft.

25. Cyfeiriodd Mr Hain at y cysylltiadau daearyddol a hanesyddol rhwng Cwm Nedd a'r dref ei hun. Siaredir Cymraeg yn rheolaidd yng Nghwm Nedd, sy'n wahanol i Afan. Mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nglyn-nedd, yng nghanol Castell-nedd ac i ddwyrain y dref. Mae un ysgol ym Mhort Talbot ac nid oes yr un yng Nghwm Afan. Caiff Eisteddfodau'r Urdd eu trefnu yng Nghwm Nedd mewn ffordd na chânt eu trefnu yn Afan. Mae cymharu'r eglwysi a'r capeli yn y Cymoedd yn dangos faint yn fwy o arwyddocâd sydd gan y Gymraeg yng Nghwm Nedd.

26. Yn ogystal, mae cysylltiadau chwaraeon Cwm Nedd yn tueddu i fod gyda'r dref. Ceir cefnogaeth gref yn y Cwm am y Gweilch a Chlwb Rygbi Castell-nedd. Ceir gelyniaeth gref rhwng timau rygbi'r ddau Gwm, ac adlewyrchir hyn mewn pêl-droed, criced a bowls.

27. Oherwydd y sefyllfa cludiant a ddisgrifiwyd yn 14 uchod, mae patrymau siopa a gweithio Cwm Nedd yn gysylltiedig â Chastell-nedd yn hytrach nag Afan.

28. Derbyniodd Mr Hain fod Penlenna wedi'i lleoli ar wahân, ond pwysleisiodd fod y ward hon yn agos i bentref Cimla sy'n edrych dros Gastell-nedd a Chwm Nedd, a cheir gwasanaeth bws uniongyrchol i'r dref. Mae'r disgyblion yn mynd i Ysgol Gyfun Cefn Saeson sydd ar Fryn Cimla.

29. Ni chafodd tystiolaeth Mr Hain, a gefnogwyd gan CBSCPT, Ms Gwenda Thomas AC, Dr Gibbons AC a Dr Francis AS, ei wrthwynebu'n sylweddol. O gael ei holi, derbyniodd Mr Hain fod gan bentref Tonmawr yn Ward Penlenna, rai cysylltiadau gydag Aberafan sef bod ei thîm rygbi'n chwarae yng nghynghrair Aberafan. Derbyniodd hefyd fod cymuned Pontrhydyfen wedi'i rhannu rhwng etholaethau Castell-nedd ac Aberafan, ond dywedodd bod y draphont yn rhannu'r pentref yn ddau a bod y rhai ar ochr Castell-nedd yn uniaethu'n gryfach gyda Chastell-nedd.

30. Derbyniodd hefyd fod Sgiwen yn rhan o gyffiniau trefol Castell-nedd gyda chysylltiadau cludiant uniongyrchol, ac eto mae'n perthyn i Etholaeth Aberafan, ond nid oedd yn derbyn bod hyn yn cyfiawnhau torri'r cysylltiadau rhwng Cwm Nedd a Chastell-nedd. Yn olaf, derbyniodd fod rhai cysylltiadau cyffredin rhwng y Cymoedd, am fod y ddau ohonynt yn hen gymoedd y pyllau glo, ac mae'r ddau ohonynt bellach yn dibynnu'n drwm ar goedwigaeth a thwristiaeth.

31. Yn ddiamau, byddai mwy o broblemau hygyrchedd a fyddai'n dod yn sgil y gwrthgynigion yn arwain, yn fy marn i, at anghyfleustra o newid yr etholaethau o fewn ystyr rheol 7(a). Mae hwnnw'n ffactor a allai gael ei ystyried, ac a ddylid ei ystyried, wrth bwyso a mesur y gwrthgynigion. Yn fy marn i , mae hwn yn ffactor o bwys cymedrol, ond nid yw'n ddigonol i atal rheol 5 rhag cael ei gweithredu'n llawn.

32. Yn fy marn i, ceir rhai cysylltiadau cyffredin rhwng y Cymoedd, fel coedwigaeth, twristiaeth a rhai cysylltiadau chwaraeon. Fodd bynnag, ceir hunaniaethau lleol cryfach o ran daearyddiaeth, hanes, diwylliant, cludiant, siopa a gwaith, rhwng wardiau Blaengwrach, Glyn-nedd, Resolfen (ac i raddau llai Penlenna), yn y drefn honno, a Chastell-nedd. Er, mewn un ystyr, mae'r hunaniaethau hyn yn debygol o barhau hyd yn oed pe bai'r gwrthgynnig hwn yn cael ei fabwysiadu, byddai mabwysiadu felly'n torri'r cysylltiadau lleol rhwng yr hunaniaethau hyn a chynrychiolaeth yn y Senedd a'r Cynulliad.

33. Yn fy marn i, mae hwn yn ffactor pwysig a allai, ac a ddylai, gael ei ystyried yn rhesymol. Mae'n fwy na thebyg o fod o bwys digonol yn ei hun i gyfiawnhau gwneud penderfyniad i beidio â gweithredu rhaol 5 yn llawn yn hyn o beth. Fodd bynnag, o'i ystyried â'r anghyfleustodau a soniwyd amdanynt ym mharagraff 14 uchod, yn fy marn i, mae'n dod yn glir nad yw rheol 5 yn cyfiawnhau newid ffin yr etholaeth rhwng Castell-nedd ac Aberafan.

*Clydach a Mawr*

34. Rwy'n troi nawr at y gwrthgynnig i gynnwys wardiau Clydach a Mawr yn etholaeth Castell-nedd. Rhoddodd y Cynghorydd Hood-Williams dystiolaeth mai ychydig sydd gan Glydach a Mawr yn gyffredin â Phenrhyn Gŵyr ond mae ganddynt gysylltiadau â Phontardawe a Chastell-nedd. Cyfeiriodd at yr angen i deithio ar gludiant cyhoeddus o Glydach i Gŵyr trwy etholaethau Abertawe. Mae'r llwybr arall drwy'r etholaeth, er ei bod yn ddeniadol, yn anuniongyrchol ac yn hir.

35. Rhoddodd Mrs Birch dystiolaeth iddi fynychu Ysgol Ramadeg Pontardawe ac roedd nifer o'i ffrindiau a'r disgyblion yn ei dosbarth yn dod o Glydach. Byddent yn mynd i siopa yng Nghastell-nedd gyda'r hwyr. Ymunodd â Chadetiaid yr Awyr Pontardawe, ac roedd nifer o'r aelodau hefyd yn dod o Glydach. Yn ddiweddarach, aeth hi i fyw yn Sgiwen sy'n cael ei thrin fel rhan o Gastell-nedd. Mae bellach yn byw yn y Crwys ger Penrhyn Gŵyr, ac mae'n teimlo nad oes ganddi unrhyw gysylltiadau â Chlydach. Ni chafodd unrhyw ran o'r dystiolaeth hon ei herio, ac rwy'n ei derbyn.

36. Ganed a magwyd Mr Cairns yn ward Clydach ac fe'i addysgwyd yn rhannol yn ward Pontardawe. Ei dystiolaeth ef oedd bod Mawr yn ardal wledig gan mwyaf sy'n defnyddio Clydach fel ei chanolfan fasnachol, adwerthu, cyflogaeth a hamdden. Mae mwyafrif y mudiadau gwirfoddol wedi'u lleoli yn ardal Clydach a Mawr. Siaradodd am anesmwythyd trigolion lleol Clydach a Phontardawe pan gafodd y ddwy ward hynny eu gwahanu pan grëwyd awdurdodau unedol Abertawe a Chastell-nedd.

37. Derbyniodd fod gan Heddlu De Cymru adran Castell-nedd Port Talbot ac adran Abertawe sy'n gwasanaethu ardaloedd yr awdurdodau unedol yn ei hanfod, ond dywedodd fod gan rai o'r heddweision ym Mhontardawe gyfrifoldeb tuag at Glydach, ac yn anaml iawn y mae heddweision yn yr orsaf heddlu yno . Derbyniodd hefyd y byddai gan heddweision yn Nhreforys i'r de gyfrifoldeb tebyg.

38. O gael ei holi ymhellach, eglurodd fod y cysylltiadau rhwng y cymunedau ym Mawr a Chlydach, wedi'u canolbwyntio ar y gymuned fwyaf ym Mawr, sef Craig-Cefn-Parc, sydd rhwy ddwy filltir o ganol Clydach. Derbyniodd, er enghraifft, mai canolfannau siopa naturiol Garnswllt yng ngorllewin y ward oedd Rhydaman, Pontarddulais ac Abertawe.

39. Rhoddodd Mr Jones, un o drigolion Clydach ac aelod o'r Blaid Lafur leol, dystiolaeth fod trigolion Clydach yn cysylltu'u hunain ag Abertawe yn hytrach na Chastell-nedd, ac ehangodd ar hyn wedyn i ddweud bod pobl Clydach, Craig-Cefn-Parc a Mawr yn cysylltu'u hunain ag Abertawe a Gŵyr. Nododd enghraifft benodol Ambiwlans Sant Ioan. Derbyniodd er mwyn mynd o Glydach i'r Mwmbwls, byddai'n golygu taith drwy ddwy etholaeth Abertawe ac nad oedd unrhyw lwybr bws uniongyrchol. Nid oedd yn ymwybodol o wasanaeth bws 122 sy'n rhedeg bob awr rhwng Clydach a Chastell-nedd. Dywedodd fod trwch o boblogaeth yn siarad Cymraeg yng Nghlydach gyda nifer gynyddol o bobl yn anfon eu plant i ysgol gynradd Gymraeg neu'n dysgu'r iaith.

40. Dywedodd Mr Smith yn ei dystiolaeth ei fod yn credu mai ym 1886 y daeth Clydach a Mawr yn rhan o etholaethau Gŵyr. Nid oedd WCP yn gallu cadarnhau na gwadu hynny ond roeddent yn fodlon derbyn fod yna gyswllt hanesyddol cryf. Pwysleisiodd Mr Smith ymhellach fod ffin etholaeth Gŵyr/Castell-nedd yn cyffwrdd â ffin yr awdurdod lleol, a chyda'r ffin awdurdod iechyd newydd ei diwygio. Yn olaf, cyfeiriodd at y ffaith fod yr ardaloedd sy'n siarad Cymraeg fel Clydach, Pontarddulais a Gorseinon i gyd yn etholaeth Gŵyr.

41. O gael ei holi, derbyniodd Mr Smith, o ddiwedd y 1940au hyd 1983, fod Pontardawe a Threbannws yn yr un etholaeth â Chlydach a Mawr, ac i bob pwrpas roedd un ardal adeiledig barhaus wrth yrru i fyny o'r M4 a chylchdro Ynys Morgan. Derbyniodd hefyd, fel ag y gwnaeth Ms Gwenda Thomas, fod disgyblion o Glydach a Mawr yn mynd i'r ysgol ym Mhontardawe, ond cyfeiriodd hefyd mai West Cross yw ysgol y dalgylch. Mae rhai'n dewis mynd i Gwmtawe, ond mae gan yr ysgol honno 18 ysgol fwydo y tu allan i'r dalgylch.

42. Rhoddodd Mr Caton dystiolaeth y byddai'r gwrthgynnig mewn perthynas â Chlydach a Mawr yn creu problemau diangen. Cyfeiriodd at y tebygrwydd cryf o ran hanes, diddordeb a phryderon rhwng cymunedau Clydach, Gorseinon a Phontarddulais. Mae mwyafrif helaeth pobl Clydach yn edrych i Abertawe am waith, siopa neu weithgareddau hamdden yn hytrach na Chastell-nedd neu Gwm Tawe Uchaf. Mae Felindre yn edrych i Langyfelach a Threforys; mae Garnswllt yn edrych i Bontarddulais, Rhydaman ac Abertawe, ac mae Craig-Cefn-Parc yn edrych i Abertawe. Nid yw erioed wedi'i ofyn i ymgyrchu am well gwasanaeth bws rhwng y cymunedau hyn a Chastell-nedd, ond gofynnir iddo'n aml i helpu rhoi'r achos dros well gwasanaethau i Abertawe.

43. Iddo ef, y ffactor pwysicaf oedd bod y ffin bresennol yn cydgyffwrdd â'r ffin i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol. Rhoddodd enghraifft ymarferol o Ymddiriedolaeth Datblygu Cwmni Clydach, y mae'n Llywydd arni, sy'n gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i ddod â chyfleoedd adwerthu, hyfforddiant a hamdden newydd i'r pentref. Nid yw'n siwr y byddai lefel yr ymrwymiad a gyflawnwyd yno yn bosibl petai'n rhaid i'r AS a'r AC uniaethu ag ardal awdurdod lleol arall.

44. Derbyniodd fod gan Glydach rai cysylltiadau gyda Phontardawe a Threbannws, ond nid oeddent mor gryf â'r rheini gydag Abertawe. Abertawe oedd y canolbwynt ar gyfer grŵp o aneddiadau yn etholaeth Gŵyr, sydd felly'n mwynhau cymuned o bryderon a diddordebau. Er bod hyn hefyd yn wir am Bontardawe i ryw raddau, mae'r cysylltiad rhwng y gymuned honno ac Abertawe yn llai cryf. Rhoddodd Mr Caton fel enghraifft y ffaith bod

cyfleusterau hamdden wedi'u hadeiladu ym Mhontardawe i gydnabod y pellter i'r rhai yn Abertawe. Mae gan y ganolfan adnoddau sy'n cael ei hadeiladu yng Nghlydach rai cyfleusterau chwaraeon nad ydynt ar gael mewn mannau eraill yn y gymdogaeth, ond nid yw'n debyg i'r ganolfan hamdden ym Mhontardawe gan nad oes ganddo bwll nofio. Y rheswm yw bod pwll felly ar gael yn Nhreforys gerllaw.

45. Yn fy marn i, byddai anawsterau cludiant sy'n codi o drosglwyddo Clydach a Mawr i etholaeth Castell-nedd yn codi yn yr aneddiadau bach i orllewin Ward Mawr. Mae hynny'n anghyfleustra cymedrol y dylid ei ystyried. Mae'r anghyfleustra o drosglwyddo'r wardiau hyn i etholaeth sydd ar hyn o bryd yn cydgyffwrdd ag ardaloedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd o fwy o bryder, ac yn fy marn i mae'n denu gradd gymedrol o bwysigrwydd.

46. Rwy'n derbyn bod gan Glydach a Mawr rai cysylltiadau lleol â Phontarddulais yn y ffyrdd a nodwyd gan y Cynghorydd Hood-Williams a Mr Cairns, ond yn fy marn i, mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u canolbwyntio yng Nghlydach a Chraig-Cefn-Parc. At hynny, mae gan Bontarddulais ei hun ryw gysylltiad ag Abertawe. Yn fy marn i, mae cysylltiadau hanesyddol, diwylliannol, siopa, cyflogaeth a hamdden cryf y ddwy ward hyn ag Abertawe a/neu rannau eraill o etholaeth Gŵyr yn y ffyrdd a nodwyd gan Mr Caton, Mr Jones a Mr Smith. Derbyniaf y ffaith fod trefi a phentrefi etholaeth Gŵyr yn edrych i Abertawe gan fod eu canolbwynt yn rhoi iddynt gymuned o ddiddordeb.

47. Unwaith eto, nid awgrymwyd y byddai'r gwrthgynnig yn effeithio'n sylweddol ar y diddordebau hynny oni bai bod y cyswllt rhwng y diddordebau hynny a chynrychiolaeth y Senedd a'r Cynulliad yn cael eu torri. Mae hwn yn ffactor o bwys y dylid ei ystyried. O'i gyfuno â'r ffactorau a nodwyd ym mharagraffau 42 a 43 uchod, yn fy marn i, maent o bwys digonol i ofyn na ddylai rheol 5 gael ei gweithredu'n llawn.

48. Yn wir, mae'r anghyfleustra a'r toriad yn y cysylltiadau lleol a fyddai'n dilyn o newid ffin etholaeth Gŵyr/Castell-nedd yn y ffordd a gynigir yn y gwrthgynnig, yn fy marn i, gymaint fel na ddylid gwneud y newid.

*Mayals*

49. Roedd yr achos a roddwyd gerbron gan WCP mewn perthynas â Mayals, yn wahanol rhywsut. Dywedodd y Cynghorydd Hood-Williams mai mantais yr agwedd hon ar y gwrthgynnig oedd y byddai'n uno Cyngor Cymuned Mayals mewn un etholaeth Seneddol, yn hytrach na'i rannu rhwng dwy etholaeth fel y mae ar hyn o bryd. Nid oedd yn gwybod am unrhyw gyngor cymuned arall yng Ngŵyr neu Abertawe sydd yn y sefyllfa honno. Ar hyn o bryd, mae'r ffin yn mynd heibio ardal breswyl barhaus, a allai gael ei diffinio'n haws gan Afon Clun, sy'n gweithredu fel y ffin rhwng y ddwy etholaeth hyn mewn wardiau eraill megis Cilâ (12 a 13) a Fairwood (8).

50. Derbyniodd y byddai hyn yn cynyddu'r anghyfartaledd mewn perthynas â Gŵyr, ond dywedodd mai dyna pam yr edrychwyd ar y cynigion eraill er mwyn ceisio lleihau'r anghyfartaledd. O gael ei holi, derbyniodd fod gan Mayals gysylltiadau ag Abertawe, yn yr ystyr o weithio neu siopa mewn dinas fawr, ond dywedodd nad oedd ganddo unrhyw gysylltiadau â rhannau o Abertawe y tu allan i ganol y ddinas megis Sgeti (32).

51. Mae Mr Colburn wedi bod yn byw yn Abertawe er 66 o flynyddoedd ac mae'n gynghorydd cymuned yn y Mwmbwls, ond nid oedd yn siarad ar ran y cyngor cymuned hwnnw. Mae ffin ardal y cyngor hwnnw ar ffin Afon Clun, ac mae'n cynnwys Black Pill, Mayals, Ystumllwynarth (24), Newton (23) a West Cross (36). Dywedodd fod Mayals a Black Pill wedi'u hystyried yn rhan o'r Mwmbwls erioed, ac y byddai'n gwneud synnwyr i gael ffin yr etholaeth ar hyd Afon Clun.

52. Wrth roi'r dystiolaeth uchod, crynhodd Mr Colburn y pwyntiau a wnaed yn y gynrychiolaeth ysgrifenedig gan nifer o drigolion lleol, a oedd yn cyfeirio at newid felly fel newid mwy rhesymegol, priodol neu naturiol.

53. O gael ei holi, ni chyfeiriodd at anghyfleustodau penodol sy'n codi o'r trefniant presennol, ond dywedodd y byddai'n well petai'r cyfan oll y mae pawb yn y Mwmbwls yn eu hystyried sy'n rhan o'r Mwmbwls yn rhan o etholaeth Gŵyr. Derbyniodd fod yna rai cymdeithasau, megis Cymdeithas

Trigolion Black Pill, Mayals a Derwen Fawr sy'n croesi'r ffin rhwng Mayals a Sgeti. Fodd bynnag, dywedodd fod llawer mwy o gysylltiadau rhwng Mayals a'r Mwmbwls. Mae plant Mayals yn mynychu Ysgol Gyfun Bishopston ac Ysgol Gynradd Mayals yn y Mwmbwls. Mae pobl Mayals yn mynd i'r eglwysi, y clybiau rygbi, y clybiau golff ac i nifer o sefydliadau eraill sydd wedi'u lleoli yn y Mwmbwls.

54. Rhoddodd Mr Donoghue, sef awdur un o'r cynrychiolaethau ysgrifenedig (rhif 18), dystiolaeth i'r un perwyl. Bu'n cynrychioli Mayals ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls am 3 blynedd. Dywedodd fod yna bobl sy'n byw yn yr un stryd sy'n pleidleisio mewn gwahanol fannau. Mae pobl Black Pill yn ystyried eu hunain fel y porth i Gŵyr. Mae'r arwydd sy'n croesawu teithwyr o orllewin Dinas Abertawe ar waelod Ffordd Mayals, ond dim ond oherwydd nad oedd lle i wneud hynny ar y bont dros Afon Clun. Mae honno'n ffin naturiol na ellir ei newid trwy ddatblygu.

55. Pan ofynnwyd iddo nodi anghyfleustra penodol o ran y drefn bresennol, atebodd fod pobl mewn un stryd yn mynd i wahanol fannau i bleidleisio, ac mae cyfeillion yn hoffi pleidleisio gyda'i gilydd.

56. Ni wrthwynebwyd y dystiolaeth a nodwyd ym mharagraffau 49 i 55 uchod yn sylweddol, ac rwy'n eu derbyn.

57. Dywedodd Mrs Collins fod Mayals wedi bod yn etholaeth Gorllewin Abertawe er 1979, pan symudodd hi yno, ac roedd yn eithaf sicr mai dyna oedd yr achos ymhell cyn hynny. Credai Mr Smith bod hynny'n wir cyn 1948. Dywedodd Mrs Collins iddynt ddewis byw ym Mayals nid oherwydd unrhyw gyswllt â'r Mwmbwls, ond am y rheswm y dewisodd nifer o bobl eraill i ddod i fyw yno ac am ei fod yn hawdd i deithio i Abertawe oddi yno. Mae bron pawb mae'n eu gweld sy'n troi wrth y gyffordd â'r ffordd ddeuol yn troi i'r chwith i Abertawe. Mae ei pherthynas leol hi gydag Abertawe, ac nid oes ganddi unrhyw berthynas â rhannau helaeth o etholaeth Gŵyr fel Gorseinon a Thre-gŵyr. Nid yw'n ystyried Afon Clun yn ffin naturiol a phrin ei bod yn sylwi arni. Mae'r Neuadd Gymunedol yn Black Pill a Neuadd Vivian yn gwasanaethu trigolion ar ddwy ochr yr afon. Mae'r cysylltiadau ag

Abertawe o leiaf cyn gryfed a chyn bwysiced â'r cysylltiadau rhwng Mayals a'r Mwmbwls.

58. Derbyniodd Mrs Collins y gallai trigolion West Cross ddweud bod ganddyn nhw gysylltiadau ag Abertawe yn yr un modd, a bod mwy neu lai un glymdref, ond dywedodd bod hynny fwy neu lai yn wir yr holl ffordd i Abertawe, gan ystyried yr ysbyty ac adeiladau'r brifysgol. Derbyniodd hefyd pan ddaeth hi i fyw ym Mayals gyntaf ym 1979, roedd y wardiau a gynrychiolir bellach gan Newton, Ystumllwynarth, West Cross a Mayals gyda'i gilydd yng Ngorllewin Abertawe nes i hynny newid ym 1983.

59. Cytunodd â Mr Donoghue a Mr Cairns i Gymdeithas y Trigolion gael ei sefydlu i ymgyrchu mewn perthynas â materion cynllunio a llifogydd, ond gwadodd yr awgrym mai'r cymhelliant oedd gwrthwynebu unrhyw ddatblygiad ar hyd Ffordd y Mwmbwls er mwyn osgoi gwasgariad trefol. Dywedodd mai'r nod oedd gwrthwynebu datblygiad amhriodol ble bynnag y byddai'n cael ei gynnig yn yr ardal y mae'r Gymdeithas yn ymdrin â hi, er nid oedd yn gallu cofio llawr o geisiadau yr oedd y Gymdeithas wedi'u cefnogi.

60. Cytunodd ymhellach fod pobl Mayals hefyd yn gofidio am ailddatblygu Sgwâr Ystumllwynarth. Ei thystiolaeth hi oedd, a dderbynnir gennyf eto, fod hwn yn ofid i nifer o bobl yn ardal Abertawe am eu bod yn hoffi ymweld â'r Mwmbwls yn ystod y nosweithiau neu'r penwythnosau.

61. Darllenodd Mr Caton ddatganiad gan Mr Alan Williams AS a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod tair etholaeth Abertawe, sef Gŵyr (58,935), Gorllewin Abertawe (57,074) a Dwyrain Abertawe (57,273) ar hyn o bryd mewn ystod o lai na 1,900. Petai Mayals yn cael ei symud i Gŵyr, byddai'r ystod yn mwy na dyblu i ddod yn 4,400. Mae gan fwyafrif yr etholwyr gyswllt hir sefydlog gyda Gorllewin Abertawe a daw'r unig bwysau am newid o du'r Blaid Geidwadol. Mae'r cyngor cymuned yn endid ar wahân, ac nid yw'r mater o ran pa etholaeth y mae ynddi yn fater hollbwysig.

62. Cytunodd Mr Caton â'r arsylwadau hynny, gan ddweud bod etholwyr Mayals yn glir ynghylch pa etholaeth y maent yn byw ynddi. Mae wedi bod yn byw

yn West Cross er 1984, ac ers hynny mae wedi gwasanaethu ar Gyngor Cymuned y Mwmbwls, hen Gyngor Dinas Abertawe ac yna Dinas a Sir Abertawe. Yn yr amser hwnnw, nid yw wedi sylwi ar unrhyw broblem o ran gweithredu unrhyw un o'r cynghorau hynny neu yng nghynrychiolaeth y Senedd neu'r Cynulliad dros bobl y Mwmbwls a achosir gan y ffin bresennol.

63. Yn fy marn i, nid yw tystiolaeth Mr Hood-Williams, Mr Colburn a Mr Donoghue ar un llaw, a thystiolaeth Mrs Collins a Mr Caton (a'r datganiadau a ddarllenwyd ganddo) ar y llaw arall, o'u dadansoddi'n gywir, yn sylweddol anghyson, a derbyniaf brif bwyslais yr holl dystiolaeth hon. Ceir cysylltiadau lleol rhwng Mayals a'r Mwmbwls mewn perthynas ag ysgolion, eglwysi a chapeli, twristiaeth a chwaraeon. Ceir cysylltiadau rhwng Mayals ac Abertawe mewn perthynas â gweithio, siopa a materion eraill fel datblygu.

64. Derbyniaf y byddai'r gwrthgynnig mewn perthynas â Mayals yn cryfhau ei gysylltiadau â'r Mwmbwls, ac yn cynyddu'r cyfleustra i'r cyngor cymuned gynrychioli ei ardal. Fodd bynnag, derbyniaf hefyd y byddai'r newid hwn yn torri'r cysylltiadau â chynrychiolwyr y Senedd a'r Cynulliad sydd bellach wedi bodoli er 30 o flynyddoedd neu fwy a lle nad oes fawr o ddryswch, os o gwbl, ar hyn o bryd. Mae angen i mi wneud cymhariaeth ansoddol rhwng y cyfleuster a'r cysylltiadau lleol a hyrwyddir drwy newid ar un llaw, a'r hyn a gaiff ei niweidio gan y newid ar y llaw arall. I ryw raddau, nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth ystyrlon. Mae'n ddigon i ddweud, yn fy marn i, bod yr anghyfleusterau a'r toriad yn y cysylltiadau lleol a fyddai'n dod yn sgil newid felly yn gymedrol, ac yn unioni'r cydbwysedd yn erbyn y prif wrthgynnig.

**Casgliad ar y prif wrthgynnig**

**65.** Fy nghasgliad i ar y prif wrthgynnig yw bod y gwelliant dilynol o ran anghyfartaledd yn cael ei wrthbwyso gan yr anghyfleustra a'r toriad dilynol mewn cysylltiadau lleol.

**Dewisiadau eraill**

66. Yn ei gyflwyniad wrth gloi, rhoddodd Mr Pratt, ar ran WCP, ddewisiadau eraill gerbron. Mae'n deg i ddweud, wrth wneud hynny, roedd i ryw raddau o

leiaf, yn cael ei ysgogi gan gwestiynau gennyf. Y cyntaf oedd symud ward Penlenna i etholaeth Aberafan a Mayals i etholaeth Gŵyr. Byddai hynny'n creu etholaeth fawr i Gŵyr o 62,993, ond fel a nodwyd gan Mr Pratt, byddai 3 o'r etholaethau'n agosach at y cwota etholiadol, sef Gorllewin Abertawe (55,878), Castell-nedd (56,028) ac Aberafan (51,376). Am y rhesymau a roddwyd uchod, byddai'r anghyfleustra a'r toriad dilynol mewn cysylltiadau lleol yn gymedrol yn fy marn i, felly mae rhyw atyniad yn perthyn i'r dewis hwn. Fodd bynnag, byddai hyn yn codi'r anghyfartaledd cyffredinol i 11,617, ac yn fy marn i, mae'r dewis hwn yn methu ar y sail hon.

67. Roedd yr amrywiad nesaf fel ym mharagraff 66 uchod, ond symud ward Clydach (nid Mawr) yn ychwanegol fel a gynigiwyd. Byddai hynny'n arwain at y nifer ganlynol o etholwyr; Gŵyr (57,222), Gorllewin Abertawe (55,878), Aberafan (51,376), a Chastell-nedd (61,799). Fel a nodwyd gan Mr Pratt, byddai hyn yn golygu y byddai'r 3 etholaeth gyntaf yn agosach at y cwota etholiadol, ac er y byddai gan Gastell-nedd nifer uchel o etholwyr, mae hefyd yn nifer sefydlog o etholwyr. Fodd bynnag, ar 10,423, byddai'r anghyfartaledd cyffredinol yn parhau'n debyg i'r hyn a argymhellwyd dros dro. Yng ngoleuni'r anghyfartaledd hwn a'r anghyfleustra cymedrol, a nodwyd ym mharagraff 45 uchod, i symud ward Clydach, yn fy marn i, ni ddylai'r amrywiad hwn gael ei wneud.

68. Amrywiad pellach i'r uchod fyddai symud Resolfen hefyd. Byddai etholaethau Gŵyr a Gorllewin Abertawe fel ag y maent ym mharagraff 66 uchod, ond byddai gan Gastell-nedd 59,350 o etholwyr a byddai gan Aberafan 53,825. Nododd Mr Pratt y byddai 3 etholaeth yn agosach at y cwota etholiadol, a'r anghyfartaledd cyffredinol fyddai 5,525. Mae'r ffaith olaf, ynghyd â'r canfyddiad bod yr anghyfleustra a'r toriad mewn cysylltiadau lleol sy'n dilyn o'r amrywiad hwn lawer yn llai na'r un ar y prif wrthgynnig, yn gwneud yr opsiwn hwn, yn fy marn i, yr un mwyaf deniadol o'r rhai a roddwyd gerbron fel gwrthgynigion.

69. Byddai'r wardiau sy'n dioddef yr anghyfleustra a thorri cysylltiadau lleol mwyaf gan y prif wrthgynnig; sef Mawr, Blaengwrach a Glyn-nedd yn parhau yn eu hetholaethau presennol. Fodd bynnag, byddai wardiau Resolfen a

Chlydach, ac i raddau llai, wardiau Penlenna a Mayals, yn dioddef o ganlyniad i'r amrywiad hwn yn y ffyrdd a nodwyd uchod. Yn y pen draw, fe'm hargyhoeddwyd i'r farn y byddai anghyfleustra a thorri cysylltiadau lleol felly yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthod yr amrywiad pellach hwn.

70. Yn olaf, mewn perthynas ag awgrymiadau Mr Black, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth bellach yn yr ymchwiliad ynghylch pa anghyfleustra neu doriad mewn cysylltiadau lleol er enghraifft, os o gwbl, y gallai'r newidiadau hyn achosi. Teimlaf felly nad wyf yn gallu gwneud unrhyw argymhelliad mewn perthynas â nhw.

**Argymhellion:**

71. Dyma fy argymhellion:

    a. Dylid gwneud yr argymhelliad dros dro yn derfynol;
    b. Ni ddylid mabwysiadu'r prif wrthgynnig;
    c. Mae'r amrywiad mwyaf deniadol, sef yr un a nodwyd ym mharagraff 68, yn haeddu ystyriaeth benodol, ond ni ddylid ei fabwysiadu;

72. Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhelliad mewn perthynas ag awgrym Mr Black.

Milwyn Jarman CF
9 Plas y Parc, Caerdydd 23 Awst 2004